Chwaraeon RhCT

# Astudiaeth Achos

## Clwb Dodgeball Dreigiau Cwm Rhondda

Ar ôl bod ar gael i oedolion ers 5 mlynedd, penderfynodd Clwb Dodgeball Dreigiau Cwm Rhondda ddechrau clwb i blant. Dangosodd Arolwg Chwaraeon i Ysgolion Cymru 2022 bod galw am glybiau dodgeball ac roedd y clwb yn awyddus i gyflwyno'r gamp i blant. Roedden nhw'n deall y byddai creu adran i blant yn fuddiol er mwyn tyfu'r clwb. Mae Dodgeball yn gamp gynhwysol ac yn ffordd wych o sicrhau bod plant yn sionc ac yn cael hwyl.

Cefnogon ni'r clwb i wneud cais am grant Cymru Egnïol Chwaraeon Cymru. Roedd y cyllid yma'n fodd i'r clwb brynu offer, llogi lleoliad a gwella sgiliau'r hyfforddwyr trwy eu cofrestru ar gyrsiau hyfforddi. Doedd dim llawer o bobl yn mynychu'r sesiynau ar y dechrau felly cynigodd ein carfan Pobl Ifainc Egnïol i hyrwyddo'r clwb ymysg ysgolion cynradd. Cysylltodd ein swyddog Pobl Ifainc Egnïol ag ysgolion lleol a threfnu sesiwn flasu. Aethon ni ati i hyrwyddo'r clwb ar-lein a rhannu taflenni gwybodaeth o amgylch yr ardal leol.

Tyfodd nifer y plant a oedd yn mynychu'r sesiynau yma a daeth y clwb yn gynaliadwy. Parhaodd y clwb i dyfu a threfnon ni dwrnamaint dodgeball i ysgolion cynradd. Cysyllton ni ag ysgol uwchradd leol a threfnu cwrs Arweinwyr Dodgeball ar gyfer rhai o'r disgyblion a oedd yn astudio addysg gorfforol. Helpodd y disgyblion ni i gynnal y twrnamaint i ysgolion cynradd ac maen nhw wedi cytuno i wirfoddoli yn hyfforddwyr yn y sesiynau i blant. Mwynhaodd y plant cynradd y twrnamaint ac mae pob ysgol wedi gofyn i ni gynnal yr achlysur eto flwyddyn nesaf.

Mae'r plant yn dysgu sgiliau newydd bob wythnos megis gwaith tîm, cydsymud dwylo a llygaid a chyfathrebu. Mae'r sesiynau wedi'u cynllunio ar gyfer plant rhwng 6 a 12 oed, felly mae modd i rieni sydd â mwy nag un plentyn fynychu un sesiwn yn unig gyda'u plant gan roi cyfle i frodyr a chwiorydd fwynhau gyda'i gilydd. Mae gan y clwb gynlluniau mawr i barhau i dyfu ac yn gobeithio sefydlu adrannau i blant a phobl ifainc.

> *"Mae fy merch yn gweld ei ffrindiau, hen a newydd, pan mae hi'n mynychu'r clwb. Mae ganddi atal dweud ac mae bod yn aelod o'r clwb yn gyfle iddi gyfathrebu a siarad â phlant eraill."*
> Rhiant
>
> *"Mae'r clwb wedi bod yn gyfle gwych i fy nhri phlentyn sydd rhwng 3 ac 11 oed gymryd rhan mewn camp gyda'i gilydd, cwrdd â ffrindiau newydd a mwynhau."*
> Rhiant

**48** o bobl yn cymryd rhan

Mae **57%** bellach yn fwy heini, yn fwy aml

Mae **93%** am barhau i ymarfer corff

Mae **93%** yn teimlo'n iachach

Mae **86%** yn teimlo'n fwy hyderus

Mae **100%** yn teimlo'n hapusach

Mae **57%** wedi gwneud ffrindiau newydd

RHONDDA CYNON TAF